astudiaeth achos

Carmarthenshire CONNECT

CYSWLLT Sir Gaerfyrddin

Ymgynghoriad ar Gyfer Prosiect Gwella Gardd Gymunedol Penymorfa Gan Ddefnyddio TGCh

Astudiaeth Achos ar Gael y Gymuned i Ddefnyddio TGCh

Ran Foster-Mason
Swyddog Maes TGCh

Crynodeb

Mae'r astudiaeth achos hon yn amlinellu'r ffordd y gellir defnyddio camerâu digidol llonydd i gefnogi'r broses o ymgynghori â'r gymuned. Mewn ymgynghoriad a arweiniwyd gan Gymunedau yn Gyntaf, fe fu Cyswllt Sir Gaerfyrddin yn helpu trigolion i gymryd lluniau digidol o erddi cymunedol lleol er mwyn bwydo'r broses ddylunio ar gyfer gardd gymunedol newydd.

Cefndir

Ger Llyfrgell Penymorfa yn Llanelli mae yna ddarn o dir sy'n lleoliad rheolaidd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae gwastraff yn cael ei ollwng yno'n rheolaidd a thanau'n cael eu cynnau. Mae'r tir yn eiddo i ystâd leol ac nid yw'n cael ei gynnal a'i gadw. Mae'r diffyg cynnal a chadw hwn yn denu'r ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Er mwyn newid yr ardal i fod yn fan ffocws y gall y gymuned leol ei mwynhau a bod yn falch ohoni, fe sicrhaodd Cymunedau yn Gyntaf Glanymor a Tyisha grant o £50,000 i drawsnewid y tir yn ardd gymunedol. Lluniwyd cytundeb gyda'r perchennog tir i brydlesu'r tir i grŵp gwirfoddol am rent blynyddol minimal.

Fe ddechreuodd Cymunedau yn Gyntaf ymgynghori gydag aelodau'r gymuned leol i weld sut oedden nhw am weld eu gardd yn cael ei dylunio. Dechreuwyd y broses hon gyda thaith bws i weld gerddi cymunedol llwyddiannus yn ardaloedd Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth yn Sir Gaerfyrddin, ac i gwrdd â'r grwpiau y tu ôl iddynt.

Diben Cynnwys y Gymuned

Fe fu Cyswllt Sir Gaerfyrddin yn helpu trigolion i ddefnyddio camerâu digidol llonydd i gasglu eu barn ar gynllun gerddi cymunedol ac i ennyn trafodaeth ynghylch dyluniad Gardd Gymunedol Penymorfa.

Y Broses o Gynnwys y Gymuned

Fe fu Cyswllt Sir Gaerfyrddin yn gweithio gyda Chymunedau yn Gyntaf cyn y daith i weld gerddi cymunedol, er mwyn cynllunio sut a pham fyddai'r trigolion ar y daith yn defnyddio'r camerâu digidol a sut fyddai'r ffotograffau'n cael eu defnyddio yn nes ymlaen yn yr ymgynghoriad.

Ar ddiwrnod y daith, fe ymunodd Cyswllt Sir Gaerfyrddin â'r trigolion yn y man ble'r oedd y bws yn eu casglu. Gyda hanner awr o daith i'r ardd gyntaf, defnyddiwyd peth o'r amser i esbonio'r bwriad i'r trigolion, rhoi gorolwg cryno o'r camerâu digidol a'i swyddogaethau a rhoi camera i bob un o'r trigolion.

Gofynnwyd i drigolion gymryd ffotograffau o nodweddion yr oedden nhw naill ai'n eu hoffi neu ddim yn eu hoffi ymhob gardd. Rhoddwyd cerdyn wedi'i lamineiddio i bob un o'r trigolion gydag wyneb hapus ar un ochr ac wyneb trist ar yr ochr arall. Gofynnwyd i'r trigolion gynnwys y cerdyn hwn yn eu ffotograffau, fel bod modd adnabod y nodweddion positif a negyddol.

Buan y daeth y trigolion i ddeall y camerâu, a hynny'n hwylus. Roedden nhw'n frwdfrydig iawn ynghylch y model 'nodwedd bositif/negyddol o'r ardd'. Roedd Cyswllt Sir Gaerfyrddin wrth law i helpu trigolion i ddefnyddio'u camerâu trwy gydol y dydd.

Cymerwyd bron i 400 o ffotograffau gan drigolion yn ystod y dydd. I ddechrau, rhannwyd yr holl ffotograffau yn grwpiau fesul gardd, gan nodi rhif ar gyfer pob ffotograff i ddangos pwy oedd wedi ei gymryd. Trwy edrych ar y wynebau hapus/trist, roedd staff Cymunedau yn Gyntaf yn gallu gweld pa nodweddion yr oedden nhw'n eu hoffi neu'n eu casáu. Roedd hyn, law yn llaw gyda'r ymatebion llafar a gafwyd ar y dydd, yn ffordd dda o gasglu adborth ar y nodweddion gardd niferus a welwyd yn ystod y daith.

Ar ôl y daith, cynhaliwyd cyfarfod dilynol. Argraffwyd ffotograffau o'r nodweddion gardd positif a negyddol ac fe'u harddangoswyd yn y cyfarfod. Roedd enw'r person a gymerodd y ffotograff yng nghornel pob ffotograff. Gofynnwyd i'r rheiny a oedd yn bresennol roi adborth ar y nodweddion gardd trwy ysgrifennu ar bapur gludiog a'i lynu ger y lluniau perthnasol. Roedd hyn yn ffordd dda o gynnwys y rheiny a oedd yn bresennol yn y cyfarfod dilynol nad oedd wedi gallu mynd ar y daith.

Rhai o'r ffotograffau a gymerwyd gan drigolion

Manteision ac Anfanteision

Manteision

- Roedd trigolion yn gallu cofnodi eu barn ar y nodweddion gardd yn annibynnol ac yn eu hamser eu hun
- Trwy ddefnyddio camera i gofnodi eu barn *trwy gydol y dydd* nid oedd yn rhaid i'r trigolion gofio'r holl nodweddion ar ddiwedd y dydd na gwneud nodiadau yn ystod y daith
- Wrth arddangos ffotograffau'r trigolion yn y cyfarfod dilynol roedd yn meithrin ymdeimlad o berchnogaeth o'r prosiect
- Atgyfnerthwyd y syniad fod Cymunedau yn Gyntaf â ffocws o weithio tuag at ddyluniad gardd a grëwyd gan y gymuned
- Y rheiny a gymerodd rhan yn dysgu am gamerâu digidol

Anfanteision

- Oherwydd y nifer uchel o ffotograffau roedd swm sylweddol o wybodaeth i'w dadansoddi
- Nid oedd rhai o'r ffotograffau yn cynnwys wynebau hapus/trist

Cyfeiriadau

Gweler y newyddion a osodwyd ar y blog gan Brosiect Gardd Gymunedol Penymorfa yn

http://www.carmsconnect.org.uk/labels/Penymorfa%20Community%20Garden%20Project.html